



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: disgwyliadau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a Gofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

Diben yr adroddiad hwn yw tynnu ynghyd prif egwyddorion arwain a gweithgareddau'r Ddeddf, gan ddeall ac adlewyrchu ei chyd-destun cymhleth.

Cyhoeddwyd gyntaf: 27 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 27 Ebrill 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cyflwyniad a chefnidir

Materion allweddol sy'n codi o'r drafodaeth

Tuag at gasgliad

Troednodyn

Manylion cyswllt

Cyflwyniad a chefnidir

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi gweledigaeth i gynhyrchu 'newidiadau trawsnewidiol' mewn polisi cyhoeddus, rheoliadau a threfniadau cyflawni gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru. Mae ganddo 11 rhan ac fe'i hysbysir gan bum egwyddor sy'n nodi gweledigaeth i gynhyrchu newidiadau trawsnewidiol mewn polisi cyhoeddus, rheoliadau a darparu gwasanaethau. Yn cyd-fynd ag ef mae strwythurau, prosesau a chodau ymarfer.

Yn hydref 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth o academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru ac ymgynghorwyr arbenigol i werthuso'r Ddeddf. Mae'r gwerthusiad cenedlaethol annibynnol, a elwir yn astudiaeth IMPACT, yn archwilio gweithrediad a chanlyniadau'r Ddeddf drwy ei phum egwyddor:

1. Iles
2. atal ac ymyrraeth gynnar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

3. cyd-gynhyrchu
4. gweithio amlasiantaethol
5. llais a rheolaeth

Mae'r astudiaeth yn gwneud hyn drwy ystyried lle mae egwyddorion y Ddeddf yn rhyngweithio â'r bobl neu'r sefydliadau y dylai'r Ddeddf fod yn cael effaith ar eu cyfer; yn bennaf, i unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, i'w gofalywr ac aelodau o'u teuluoedd, ac i'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Fel rhan o'r gwerthusiad cyffredinol, cynhaliwyd ymchwil helaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalywr ar eu disgwyliadau a'u profiadau o'r Ddeddf. **Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: disgwyliadau a phrofiadau**

Mae'r adroddiad byr yma yn cynnwys myfyrdodau pwerus a heriol o brofiadau 10 o bobl o'r system gofal cymdeithasol. Nid yw'n bosibl dod i gasgliadau cyffredinol yn seiliedig ar y profiadau hyn, ond mae'n bwysig cydnabod y negeseuon teimladwy sydd wedi'u cynnwys yn y safbwyntiau sy'n dilyn.^[troednodyn 1]

Nod y ddogfen hon yw rhoi ffocws ar eu profiadau byw er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn yr astudiaeth gyffredinol.

Ymchwil gyda Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalywr o Gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Mae gwybodaeth fanwl am y dull methodolegol ar gyfer yr ymchwil ansoddol a wnaed gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalywr ar eu disgwyliadau a'u profiadau o'r Ddeddf ar gael yn y prif adroddiad. Defnyddiodd yr ymchwil samplu pwrpasol, techneg sy'n cynnwys nodi a dethol unigolion neu grwpiau o unigolion sydd â gwybodaeth a/neu brofiad manwl o'r ffenomenon diddordeb (Creswell a Plano Clark, 2018), recriwtiwyd cyfranogwyr drwy ystod o sefydliadau porthgeidwaid (Singh a Wassenaar, 2016). Roedd y sefydliadau porthgeidwaid hyn yn ganolog yn y broses o gasglu data ac yn sicrhau bod lleisiau'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth yn cael eu clywed.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Yn yr achos hwn, buom yn gweithio'n agos gydag EYST Cymru (<http://eyst.org.uk/>). Y Tîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuenctid (EYST) yw'r brif elusen Gymreig sy'n cefnogi pobl ifanc Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, teuluoedd, unigolion a grwpiau cymunedol sy'n byw yng Nghymru i gyfrannu at gymdeithas Cymru, cymryd rhan ynddi a chael eu gwerthfawrogi. Mae EYST yn darparu ystod o wasanaethau i gyflawni'r nod hwn, gan gynnwys cymorth un-i-un; cymorth i deuluoedd; cyngor a chymorth i ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr yr UE; cyfleoedd gwirfoddoli; cyflogaeth â chymorth; a meithrin gallu. Mae hefyd yn herio ac yn gwrthweithio stereoteipiau negyddol am amrywiaeth hiliol, ac yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cymunedau amrywiol sy'n byw yng Nghymru.

Daeth EYST a grŵp ffocws ar-lein o 10 o bobl hŷn Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a gofalwyr pobl hŷn at ei gilydd, a hwyluso'r sesiwn. Gofynnwyd am dystiolaeth ar brofiadau gofal a chymorth gan yr hysbyswyr allweddol hyn a oedd, o'u dwyn ynghyd, yn tynnu sylw at batrymau nodwedd allweddol. Mae'n bwysig nodi bod y data a gasglwyd wedi digwydd yn ystod pandemig COVID-19, ym mis Medi 2021. Roedd y sesiwn wedi'i strwythuro o amgylch tri chwestiwn allweddol, ond roedd y drafodaeth yn llifo'n rhydd ac yn naturiol iawn, ac yn sicr nid oedd yn gyfyngedig i'r rhain:

- Allwch chi ddweud wrthym am y gofal a'r cymorth rydych chi / y person rydych chi'n gofalu amdano yn eu derbyn?
- Dros y 12 mis diwethaf, a allwch ddweud wrthym a fu unrhyw newidiadau yn y gofal a'r cymorth a gawsoch chi / y person yr ydych yn gofalu amdano
- Pa effaith (os o gwbl) y mae'r newidiadau hyn wedi'i chael arnoch chi fel unigolyn / gofalwr / aelod o'r teulu?

Roeddem wedi gobeithio archwilio profiadau pobl dros amser, a cheisio deall a oedd gweithredu'r Ddeddf (o fis Ebrill 2016 ymlaen) wedi dylanwadu'n sylweddol ar les pobl. Byddai'n deg dweud nad oeddem wedi gallu archwilio'r materion hyn yn ystod y grŵp hwn. Y rheswm pennaf am hynny oedd bod cyfranogwyr yn parhau i ganolbwyntio'n glir iawn ar eu problemau a'u profiadau diweddar o'r system gofal a chymorth.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi disgrifiad o'r drafodaeth a strwythurwyd o amgylch y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod y grŵp ffocws. Ategir y themâu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

allweddol hyn gan sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr, ond mewn dull na fydd yn nodi unrhyw un o'r bobl a gymerodd ran. Mae'n bwysig dweud mai safbwyntiau'r bobl a gyfrannodd at y drafodaeth yw'r rhain – nid ydym yn gwneud unrhyw honiadau ynghylch a yw'r rhain mewn unrhyw ffordd yn 'gynrychioliadol' o eraill. Yr hyn ydynt – a dylid eu deall felly – yw profiadau byw gofalconwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Maent yn gyfrifon o'u hymwneud â'r system, a'u hymatebion i'r system honno.

Materion allweddol sy'n codi o'r drafodaeth

Mae'r adran hon yn nodi pedwar mater allweddol a oedd yn rhan o'r drafodaeth. O dan bob un mae cyfres o is-themâu gan ddefnyddio llais a geiriau cyfranogwyr, gan roi manylion am eu profiad a sut yr oeddent wedi ymateb i'r rhyngweithio yr oeddent yn ei gael â'r system gofal cymdeithasol (mae penawdau'r is-themâu hyn yn deillio o ddyfyniadau gan gyfranogwyr ac wedi'u dynodi gan ddatganiadau sydd mewn print trwm ac italig). Mae'n gwbl fwriadol bod yr adran hon yn canolbwyntio'n drwm ar yr hyn a ddywedodd cyfranogwyr unigol, nid ydym wedi cuddio dehongliadau na dadansoddiadau i ganiatáu i'w lleisiau atseinio.

Ymdeimlad cyffredinol o gael eich siomi gan y gwasanaethau cymdeithasol

Roedd ymdeimlad cyffredinol bod pobl wedi cael eu siomi gan y gwasanaethau cymdeithasol, ac roedd y teimladau hyn yn arbennig o ddifrifol o gofio bod pobl yn aml wedi ceisio osgoi gorfod defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r siom sy'n amlwg o'r dyfyniadau canlynol yn dystiolaeth o'r diffyg cysylltiad rhwng y disgwyliadau oedd gan bobl o'r cymorth yr oeddent am ei gael, a'r hyn a gawsant mewn gwirionedd.

“ Pan oeddwn i angen cefnogaeth ar ôl blynyddoedd o ymdopi hebdo, nid oedd [y gefnogaeth yr oeddwn ei hangen] yno i mi”

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

“ "Dywedais 'Wnes i erioed ofyn unrhyw beth i chi am gymorth i ofalwyr, ond nawr mae ei angen arnaf' oherwydd bod ganddi hi [mam] glun wedi torri bedwar mis yn ôl ac un mis yn ôl roedd ganddi fraich wedi torri ac roedd angen cymorth arni pan oedd hi'n eistedd ac yn gorwedd. Rwyf bob amser yn ei helpu ac yn awr mae fy nghefn yn brifo. Felly fe wnes i alw a dywedais fod angen help arnaf am 24 awr, ond fe ddywedon nhw eu bod yn flin na allwn ni helpu ar hyn o bryd gyda'r hyn sydd ei angen arnoch, byddwn yn rhoi ei henw i lawr ac rydym wedi bod ar restr aros ers hynny."

“ "Mae diffyg cyfathrebu ynghylch a oeddem yn siarad â'r bobl iawn. Rwyf wedi gallu gwneud y rôl gofalu hon ers blynyddoedd ond nawr mae pethau wedi newid ac mae angen cymorth arnaf, ac rwy'n dod at weithwyr cymdeithasol ond nid wyf yn cael y cymorth sydd ei angen arnaf. Mae yna dybiaeth y bydd aelodau o'r teulu yn parhau gyda chefnogaeth, dydw i ddim yn gallu gwneud bob amser."

“ "Pan oeddwn yn codi'r pryderon hynny, roedd y gwasanaethau cymdeithasol yn dweud nad oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud a byddwn yn aros i weld." ”

“ "Dim ond pan fyddwn ni wir eu hangen y byddwn ni'n cysylltu â nhw, pan fydd eu hangen fwyaf arnom, ble maen nhw?"

“ "Un trist arall, wel dydw i ddim yn gwybod beth i'w alw ond yn enghraifft rwystredig, drist. Rwy'n anabl, mae fy mab ifanc yn ofalwr, yn ofalwr di-dâl i mi. Pan geisiais gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol pan gafodd ei gludo i'r ysbyty, anwybyddodd y gwasanaethau cymdeithasol fy ngheisiadau am gymorth. Gwrthodasant gais gweithwyr proffesiynol eraill hefyd fod angen help ychwanegol arnaf gartref oherwydd eu bod yn sylweddoli nad oedd fy mab yn gallu gofalu amdanaf am ei fod yn yr ysbyty. Doedden nhw ddim hyd yn oed yn cysylltu â mi bryd hynny." ”

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Diffyg amser ar gyfer gofalu o fewn y system ofal

Roedd pobl yn cydnabod bod y system gwasanaethau cymdeithasol o dan bwysau sylweddol a bod heriau ym mhobman o ran cael digon o staff. Yr hyn a oedd yn anodd i gyfranogwyr ei gysoni oedd y diffyg tosturi ac empathi a brofwyd ganddynt, o system a gynlluniwyd yn ôl pob tebyg i gefnogi a gofalu am bobl mewn angen. Nid oeddent yn gosod y feirniadaeth hon wrth draed gweithwyr unigol gan eu bod yn cydnabod pa mor 'wael o ran amser' oeddent, ond roeddent am gael gwell ymateb gan y system ofal nad oedd wedi dangos gofal tuag atynt.

“ "Nid oes digon o gapasiti nac adnoddau yn y system i ddangos tosturi"

“ "Nid ydym yn cael ein gweld fel partneriaid cyfartal. Rydym yn gofalu am ein hanwyliaid ar eu hamser mwyaf agored i niwed yn eu bywydau, ac weithiau rwy'n teimlo nad oes empathi oherwydd fy mod i, yno, roedd y gweithiwr cymdeithasol yn dweud nad oes ganddynt ddigon o adnoddau, nid ydynt oes ganddynt yr arian ac maent wedi'u gor-ymestyn, ond rydych yn gofalu am anwyliaid bryd hynny ac mae angen rhywun arnoch i fod yn dosturiol, i ddangos empathi, i roi'r amser hwnnw i chi ddeall y broses, ond nid yw yno, nid yw ar gael." ”

“ "Mae diffyg ymatebolrwydd enfawr i geisiadau syml"

“ "Mae'n cymryd misoedd lawer iawn i'r ceisiadau mwyaf syml gael eu clywed a gwrando arnynt a gweithredu arnynt."

“ "Er bod gennym weithwyr proffesiynol sy'n gyfarwydd â'r system gofal cymdeithasol yn ein teulu, rydym yn ei chael hi'n anodd gweithio drwy'r system pan oedd angen." ”

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ni chlywir lleisiau pobl, ac nid oes ganddynt reolaeth

Codwyd llawer o bryderon ynghylch y ffaith bod pobl yn teimlo nad oes ganddynt 'lais' yn y system, ac na wrandewir arnynt mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Nodwyd nifer o ganlyniadau o hyn: bod y diffyg ymateb hwn yn arwain at deimlad o orfod 'brwydro' i gael eich clywed; bod pryderon na fydd codi cwynion yn arwain at ofal a chymorth i'w hanwyliaid neu y byddant yn arwain at ofal a chymorth gwaeth i'w hanwyliaid; a bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u dadrithio am yr hyn a fydd yn digwydd i aelodau eu teulu.

“ "Roedd angen i mi frwydro i gael fy llais wedi'i glywed ond nid oedd ac nid oedd gennyf reolaeth"

“ "Rydyn ni'n bwrw ymlaen yn llafurus ac mae'n dod at hyn ac ni allwn ymdopi a gofynnodd i mi ond pam, pam y cymerodd e-bost gan y gweithiwr proffesiynol iddynt weithredu? Roedd hi'n gofyn iddyn nhw, yn gofyn iddyn nhw am flwyddyn a hanner cyn iddi roi'r gorau iddi'n llwyr am nad oedd neb yn gwranddo."

“ "Roedd yna frwydr, roedd brwydr i dderbyn y gefnogaeth yna gan y gwasanaethau cymdeithasol." ”

“ "Rydw i wedi fy nadrithio, yn drist ac yn ddifater iawn gan nad oes neb yn gwranddo arnaf"

“ "Rwyf am adleisio fy nhriswch mewn gwirionedd a'm rhwystredigaethau o ran gwasanaethau cymdeithasol nad ydynt yn trafferthu ffonio'n ôl pan ddywedant y byddant yn gwneud hynny. I fod yn onest mae'n flinedig oherwydd does dim byd wedi newid, does dim byd wedi gwella ers i mi roi fy adborth ychydig flynyddoedd yn ôl, wyddoch chi nad ydw i'n gweld y pwynt mwyach, dydw i ddim."

“ "Ond fel y dywedaisdoes dim byd sy'n fy synnu mwyach a dydw i ddim yn trafferthu cysylltu â nhw. Rwy'n cadw pethau fel y maent oherwydd rwy'n gwybod y byddai'n wastraff ar fy egni, fy egni cyfyngedig a'm hamser

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cyfyngedig." ”

“ "Pwy sy'n sefyll dros y bobl fwyaf agored i niwed?"

“ "Pan fyddwch chi ar eich mwyaf bregus ac nad yw eich cwyn yn cael ei chadarnhau, mae'n anodd ac yn eich tanseilio. Mae'r effeithiau hyn yn tonni ar draws teuluoedd. Nid oes modd cwyno'n annibynnol heb i weithwyr proffesiynol gau rhengoedd. Nid oes neb yn sefyll dros y bobl fwyaf agored i niwed yn yr amgylchiadau hyn. Pwy yw ein heiriolwyr? Ble mae fy llais yn mynd? Pwy sy'n fy nghlywed i? Pwy sy'n diogelu pobl sy'n agored i niwed? Mae pawb yn mynd drwy gyfnod heriol, ac mae hyn yn cael ei waethygu i bobl sy'n agored i niwed o gymunedau ethnig."

“ "Mae'n gwneud i mi deimlo nad oes diben cyfrannu. Does neb yn gwrando. Ac os ydych chi yn bendant mewn unrhyw ffordd, maen nhw'n eich marcio fel rhywun sy'n creu trafferthion." ”

“ "Rydym wedi gorfod cymryd arnom ein bod yn llai gofidus nag yr ydym mewn gwirionedd i sicrhau cefnogaeth barhaus y gwasanaethau cymdeithasol"

“ "Roedd yn rhaid i mi fynnu fy awdurdod er nad oeddwn yn teimlo bod gennyf un oherwydd os ydych yn or-bendant ni fydd y gweithiwr cymdeithasol yn dod atoch, ni fyddant, ni fyddant yn dod yn ôl, ni fyddant yn ymgysylltu â chi os ydych yn or-bendant, mae'n rhaid i chi chwarae hynny i lawr mewn rhyw ffordd a bron dod fel robot a pheidio â dangos emosiwn os ydynt i ddarparu cymorth."

“ "Pan fyddwch chi ar eich mwyaf agored i niwed ac mae angen y gefnogaeth gan weithiwr proffesiynol arnoch ac yna maen nhw'n dweud bod yn rhaid i chi fynd drwy'r gweithdrefnau cwyno ac nad oes rhywun yn gwrando arnoch chi na bod camau'n cael eu dilyn, mae'n ddinistriol iawn. Rwyf wedi bod yn ofalwr y rhan fwyaf o'm bywyd ond gyda fy mam yn gwybod pa mor falch yw hi a phan nad oes neb yn gwrando ar berson bregus, mae'r effaith yn tonni ar draws y teulu, nid yn unig i'm mam ond

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

i'm plant, yr wyrion a'r wyresau hefyd. Mae'n ymddangos fel bod unman i gwyno ac i'r pryderon hynny gael gwrandawriad ac mae'n ymddangos bod pawb yn cau eu rhengoedd arnoch chi, a dyna hi, ni allwch fynd ymhellach na chi sy'n gwneud y gŵyn honno a dyna ni." ”

Effaith stereoteipio hiliol ar ofal a chymorth

Mae llawer o'r themâu uchod yn siapio ac yn cael eu llunio gan effaith hiliaeth a wynebier gan lawer o'r cyfranogwyr. Myfyriodd y cyfranogwyr ar brofiadau mwy trafferthus a gawsant a oedd yn peri iddynt gwestiynu rhai o'r tybiaethau a oedd yn cael eu gwneud amdanynt, eu hethnigrwydd, a'u cefndir diwylliannol. Roedd pryderon gwirioneddol bod lliw eu croen wedi bod yn ystyriaeth yn eu hymwneud â'r system ar ormod o achlysuron.

“ "Mae stereoteipio ar sail ethnigrwydd wedi bod yn rhan o'm profiad"

“ "Rwy'n credu ein bod yn cael ein dieithrio'n aml iawn gan rai sefydliadau, oherwydd y cyfan a wnânt yw eich barnu, sut rydych chi'n edrych, pa liw yw eich croen a sut rydych chi'n gallu mynegi geiriau. Nid yw byth yn ymwneud â beth yw'r broblem wirioneddol, achos rwy'n credu pan fyddwn yn mynd i'r sefydliadau hyn y dylai fod yn ymwneud â'r gefnogaeth y gallwch ei chael ganddynt ac nid pw ydych chi, o ble rydych chi'n dod, beth yw eich crefydd a hynny i gyd ac fel hyn. Mae'r hiliaeth hon ym mhobman ond mewn sefydliadau mae'n dod yn gwbl glir pan fydd pobl eraill yn cael llawer mwy o gefnogaeth a llawer mwy o gymorth ac maent mewn gwirionedd yn elwa o'r gwasanaethau hyn tra bod rhai pobl yn cael eu gadael allan, eu gollwng o'r neilltu a byddant yn rhyw fath o ddelio gyda ni pan allant, pan fydd ganddynt amser, pan maen nhw'n gallu gwneud hyn, mae yna esgusodion bob amser pan ddaw ein cyfle ni a dyna fy marn i amdano chi'n gwybod, mae stori pawb yn wahanol ond dyna sut dwi'n gweld pethau."

“ "Gofynnais i fy ngweithiwr cymdeithasol un diwrnod a oes gan y ffordd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

rydw i wedi cael fy nhrin unrhyw beth i'w wneud â lliw fy nghroen ac roedden nhw wedi dweud wrthyf 'na, pam fyddech chi'n meddwl hynny?' Roeddwn i'n derbyn, neu ddim yn derbyn y cymorth yr oedd ei angen arnaf, oedd fy mab ei angen a hyd yn oed yn cwyno i reolwyr uwch, dim ond un ffordd sydd, rydych chi'n gwybod un neu ddwy ffordd o gwyno a hyd yn oed y rheolwyr yno heb ddychwelyd galwadau ffôn. Felly mae'n ymddangos fel y cyfan, nid oedd pawb yn gwneud yr hyn yr oeddwn yn meddwl bod y gwasanaethau cymdeithasol yn ei wneud. Ac roeddwn i'n meddwl y gallai fod oherwydd fy enw a lliw fy nghroen."

“ "Rwy'n credu ein bod yn cael ein barnu cyn gynted ag y cawn ein gweld. Allwch chi ddim dweud o fy enw i nac enw fy mam ond cyn gynted ag y bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cyrraedd cartref fy mam roedd fel ofn ar ei hwyneb. A'r ffordd, pan fyddwch chi'n byw gyda hiliaeth ar hyd eich oes, gallwch ei godi o awgrym o'r ffordd maen nhw'n edrych, o'r ffordd mae pobl yn edrych arnoch chi. O'r dôn yn y llais, y ffordd maen nhw'n gofyn, y ffordd mae pobl yn gofyn cwestiynau i chi, oherwydd rydych chi wedi byw gydag ef gallwch ei godi." ”

“ "Gwneir rhagdybiaethau am deuluoedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig na ddylid eu gwneud"

“ "Rwy'n un o ddeg o blant... felly'r dybiaeth gyntaf a wnaeth y gweithiwr cymdeithasol oedd y byddem yn gallu ymdopi oherwydd eu bod yn dweud, 'o mae gennych deulu mawr felly byddwch yn gallu ymdopi'. Dywedais nad oedd hynny'n wir oherwydd mai ond fi, fi fy hun, oedd yn ofalwr gweithredol, yn ofalwr di-dâl."

“ "Rwy'n credu bod gan hil ran fawr i'w chwarae ynddo oherwydd rwy'n aml yn credu, pan ddaw'n fater o deuluoedd mwy o ran maint, tybir bod teuluoedd o hil yn hunangynhaliol, nad oes angen help arnynt, eu bod yn gallu gwneud popeth, eu bod yn gallu ffitio anghenion cymdeithasol diwylliannol y person penodol hwn. Ac mae'r dybiaeth bod gweithlu'n gyfartal â gofal rwy'n credu ei fod bob amser yn cael effaith andwyol ar bobl o liw oherwydd efallai ein bod yn dod o deuluoedd mawr ond os mai

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

dim ond tri neu bedwar o bobl sy'n gweithio ac yn cefnogi pawb arall yna mae hynny'n golygu bod hyd yn oed un person ychwanegol yn chwalu'r cydbwysedd petrus iawn a oedd gennym ar waith." ”

Tuag at gasgliad

Mae'r adroddiad byr hwn yn cynnwys nifer o fyfyrddodau pwerus a heriol iawn ar brofiadau pobl o fewn y system gofal cymdeithasol. Nid yw'n bosibl nac yn synhwyrol dod i gasgliadau cyffredinol yn seiliedig ar y profiadau hyn, ond mae'n bwysig cydnabod dilysrwydd y safbwyntiau a ddarperir. Mae pedair thema y mae'r pwyntiau allweddol yn cydgyfarfod o'u cwmpas.

1. Roedd ymdeimlad cyffredinol bod pobl wedi cael eu siomi gan y gwasanaethau cymdeithasol, ac roedd y teimladau hyn yn arbennig o ddifrifol o gofio bod pobl yn aml wedi ceisio osgoi gorfod defnyddio gwasanaethau cymdeithasol.
2. Roedd pobl yn cydnabod bod y system gwasanaethau cymdeithasol o dan bwysau sylweddol a bod heriau ym mhobman o ran cael digon o staff. Yr hyn a oedd yn anodd i gyfranogwyr ei gysoni oedd y diffyg tosturi ac empathi a brofwyd ganddynt, o system a gynlluniwyd yn ôl pob tebyg i gefnogi a gofalu am bobl mewn angen.
3. Codwyd llawer o bryderon ynghylch y ffaith bod pobl yn teimlo nad oes ganddynt 'lais' yn y system, ac na wrandewir arnynt mewn unrhyw ffordd ystyrlon.
4. Myfyriodd y cyfranogwyr ar brofiadau gofidus a gawsant a oedd yn gwneud iddynt gwestiynau rhai o'r tybiaethau a oedd yn cael eu gwneud amdanynt, eu hethnigrwydd, a'u cefndir diwylliannol.

Rydym yn cydnabod mai dim ond safbwynt yr unigolion y clywsom ohoni y mae'r rhain yn eu hadlewyrchu. Rydym yn ymhelaethu ar y lleisiau hyn yma oherwydd eu bod yn rhoi cipolwg pwysig ar ble y gallai'r system gael ei herio fwyaf o ran gallu ymateb i bobl mewn ffordd sy'n sensitif yn ddiwylliannol ac yn briodol.

Mae'n bwysig cydnabod y penderfyniadau a'r cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

a'r ddogfen ehangach sy'n archwilio safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ochr yn ochr â'r gwahaniaethau. Mae'r pwyntiau isod wedi'u gwneud i gloi'r adroddiad hwnnw, a'r rhai a ailgyflwynir yma i ddangos bod llawer o'r materion a godwyd yn y ddogfen hon yn croesi gyda'r prif adroddiad.

- Mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn teimlo bod pellter i deithio o hyd cyn gwireddu dyheadau'r Ddeddf yn llawn.
- Mae'n bwysig cydnabod gwerth clywed yn uniongyrchol am brofiadau byw pobl eraill fel un o'r sylfeini allweddol ar gyfer gwella sydd wrth wraidd y Ddeddf.
- Nid yw'r 'daith' tuag at weithredu'r Ddeddf yn llawn wedi'i chwblhau eto, ac mae'n amlwg bod angen i'r system weithio'n fwy effeithiol i wireddu potensial yr holl egwyddorion sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn cytgod.
- I rai pobl yn ystod y pandemig, nid yw'r egwyddorion erioed wedi teimlo ymhellach oddi wrth eu profiad beunyddiol o wasanaethau cymdeithasol. Bydd yn anodd symud y rhain yn nes at bobl, ond ni fu erioed amser pwysicach i wneud hyn nag ar hyn o bryd.
- Fodd bynnag, mae rhai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn gynyddol ddiamynedd am newid. Mae cydnabod a gwerthfawrogi hyn bellach yn allweddol i'r gwaith o ymgorffori'r Ddeddf a'i hegwyddorion ymhellach.

Fodd bynnag, rhaid nodi bod profiadau penodol iawn defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wahanol mewn un ffordd amlwg, bod y stereoteipio a'r rhagfarn ethnig y maent wedi'u hadrodd drwy eu profiadau eu hunain yn unigryw iddynt.

Rydym am orffen gyda meddyliau un o'r cyfranogwyr. Tua diwedd y drafodaeth, trodd y sgwrs at yr hyn a fyddai'n digwydd nesaf gyda'r wybodaeth yr oedd pobl wedi'i darparu. Myfyriodd un cyfranogwr yn benodol ar y tensiwn rhwng dweud eu stori ai peidio. Roeddent yn poeni i ddechrau y gallent gael eu hadnabod o'r naratif ac roeddent yn pryderu am hynny. Yn yr eiliad nesaf, fodd bynnag, daethant i gydnabod, er mwyn creu set wahanol o brofiadau i eraill, fod yn rhaid dweud eu stori a bod yn rhaid clywed eu llais. Yn yr ysbryd hwnnw y daw'r adroddiad hwn i'r casgliad:

“ "Rwyf am iddo gael ei ddefnyddio mewn gwirionedd, ei ddefnyddio.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Defnyddiwch ef wyddoch chi am nad wyf wedi cael triniaeth dda gan y gwasanaethau cymdeithasol. Defnyddiwch ef, defnyddiwch ef... mae angen i bethau newid. Mae'n ddrwg wrth i mi siarad rwy'n myfyrio ac rwy'n meddwl mai dyma'r hyn nad oeddwn am ei gael, doeddwn i ddim eisiau cael fy adnabod, ac wrth siarad rwy'n dweud os mai dyna sydd angen digwydd ar gyfer newid, ie yna adroddwch fy stori, defnyddiwch fy ngeiriau. Rwy'n credu ei fod yn gwneud synnwyr, rwy'n credu mai dyna'r peth iawn i'w wneud..." ”

Troednodyn

[1] Mae'n hunaneglur bod poblogaethau lleiafrifoedd ethnig yn heterogenaidd, gyda gwahaniaethau o fewn a rhwng grwpiau, ac fel y dywed Saltus (2020) mae ymdrechion i gategoreiddio poblogaethau o'r fath wedi bod a bydd bob amser yn cfreu problemau (**Holding On to the Gains**). Yn yr un modd, mae Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drafft Llywodraeth Cymru yn datgan: "Mae'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio grŵp amrywiol iawn o bobl sy'n aml yn rhannu ychydig iawn yn gyffredin ar wahân i'r gwahaniaethu y maent yn ei wynebu yn aml yn fater dadleuol. Cafwyd sawl dadl ar y derminoleg y dylid ei defnyddio yn y Cynllun Gweithredu hwn. Nid oedd llawer o gytundeb ynghylch beth ddylai'r derminoleg fwyaf priodol fod. Felly, yn unol â defnydd EYST ac yn unol â Chynllun drafft Llywodraeth Cymru, defnyddir y term 'Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig' (i ddisgrifio pobl, poblogaethau a grwpiau) yn y crynodeb hwn. Mae EYST yn nodi: 'Rydym yn cydnabod bod hwn yn derm sy'n cael ei herio a bod yn well gan eraill ddefnyddio "BME", "Du" neu "Lleiafrifoedd Ethnig/ Ethnig Lleiafrifol" neu "POC"/ Pobl o Liw". Byddwn yn trafod ac yn adolygu'r termau a ffefrir i'w defnyddio yn ein harfer yn barhaus, a hefyd yn nodi efallai na fydd aelodau tîm EYST, cyfranogwyr a phartneriaid i gyd yn cytuno ar eu dewis derminoleg.'

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Manylion cyswllt

Awdur: Mark Llewellyn, [Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru](#),
Prifysgol De Cymru

Safbwyntiau'r ymchwilyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 32/2022

ISBN digidol 978-1-80364-083-9



Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: disgwyliadau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a Gofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).